

**Bridgend County Borough Council**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**



[www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)



# **Ein Strategaeth i drechu digartrefedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**2018 - 2022**

## Cynnwys

Rhif y Dudalen

<b>1.0 Cyflwyniad</b>	3
1.1 Crynodeb Gweithredol	4
<b>2.0 Ble mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr arni yn awr</b>	5
2.1 Deall Digartrefedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr	5
2.2 Negeseuon allweddol o'n Hadolygiad o Ddigartrefedd	7
<b>3.0 Beth mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei wneud yn dda</b>	9
3.1 Y Tîm Datrysiadau Tai	9
3.2 Gwasanaethau wedi'u Gwreiddio	10
3.3 Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl	10
3.4 Y Sector Rhentu Preifat	13
3.5 Tai Fforddiadwy	13
3.6 Datblygiadau Cyfredol	14
<b>4.0 Ble mae ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eisiau bod?</b>	15
<b>5.0 Sut fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn monitro'r Strategaeth</b>	17

### **ATODIAD 1 – CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL**

## 1.0 Cyflwyniad

Gall digartrefedd gael effaith fawr ar fywyd unigolyn a / neu ei deulu. Gall fod yn niweidiol i iechyd, cyflogaeth neu gyfleoedd addysg a hyfforddiant rhywun.

Ceir camdybiaethau am ddigartrefedd yn aml. Nid yw wastad yn ymwneud â chysgu allan ac nid dim ond ag argaeledd llety. Mae digartrefedd statudol yn cynnwys pobl yn byw mewn llety anaddas neu dros dro.

Hefyd, yn aml ceir rhesymau cymhleth pam fo pobl yn dod ac yn parhau i fod yn ddigartref. Mae llawer o bobl yn methu â chynnal llety oherwydd materion megis afiechyd meddwl neu faterion camddefnyddio sylweddau. Felly mae angen i ddatrysiadau fod yn amrywiol ac wedi'u teilwra i anghenion unigol.

Mae digartrefedd hefyd yn cael effaith andwyol ar yr economi ac yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, yr heddlu, gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Dyma pam fod rhaid i wasanaethau statudol ac anstatudol gydweithio i wneud trechu digartrefedd yn flaenoriaeth.

Mae angen i wasanaethau tai a chymorth fod yn hygyrch, ar gael yn rhwydd ac wedi'u dylunio o amgylch pobl sy'n eu defnyddio ac yn ymatebol i anghenion y bobl hynny. Mae angen i'r Awdurdod Lleol weithio mewn partneriaeth gyda dinasyddion i atal digartrefedd, gan rymuso pobl i gymryd camau i ddatrys eu materion tai, i fod â mwy o ddewis, gwneud eu penderfyniadau eu hunain a chadw rheolaeth ar eu bywydau.

Felly, mae'r ddogfen hon yn nodi Strategaeth Digartrefedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2018-2022. Mae'r Strategaeth yn bwrw golwg ar ddarlun digartrefedd yn y fwrdeistref sirol, gan ystyried ble y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn awr, yr hyn y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei wneud yn dda ac yn y pen draw mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer ble y mae ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eisiau bod. Mae'r Strategaeth hefyd yn pennu nodau allweddol ac amcanion dilynol i wireddu'r weledigaeth.



**Y Cynghorydd Dhanisha Patel**  
**Yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

## 1.1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cofleidio'r dyletswyddau newydd dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac wedi ailgyflunio'i strwythur staffio, ei brosesau a'i bolisïau i gyflawni'r dyletswyddau atal a lleddfu i leihau digartrefedd.

Mae'r Awdurdod wedi ymateb i anghenion cynyddol a newidiedig ei drigolion a oedd ac sydd yn wynebu digartrefedd. Ar y cyd â sefydliadau lleol yn y trydydd sector, defnyddiodd yr Awdurdod gyllid grant Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd i gomisiynu prosiectau allweddol ar gyfer pobl mewn angen. Mae hyn yn cynnwys unedau ychwanegol o lety dros dro a mwy o opsiynau i bobl y mae arnynt angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Ar ben hynny, fe sefydlodd yr Awdurdod arwynebedd llawr mynediad uniongyrchol fel opsiwn trwy gydol y flwyddyn ar gyfer pobl sy'n ddigartref ar y stryd, a phrosiect peilot atodol sy'n cynnig cymorth yn ystod rhannau penodol o'r dydd.

Er gwaethaf yr ymateb rhagweithiol hwn, mae heriau'n bodoli o hyd. Mae nifer y rhai sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref yn cynyddu, a hynny o ganlyniad i nifer o ffactorau, yn anad dim y newidiadau i'r system budd-daliadau lles; a nifer y bobl ag anghenion mwyfwy cymhleth, gan gynnwys afiechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, a thlodi cyllid a chyfleoedd, sy'n eu cyflwyno'u hunain. Mae ymateb i'r heriau hyn ar adeg o gyfyngiadau ariannol yn benbleth pellach.

Hefyd, mae estyniadau ar ddod i'r dyletswyddau y mae ar yr Awdurdod Lleol i rai pobl y ceir eu bod wedi'u gwneud eu hunain yn 'fwriadol ddigartref' a'r posibilrwydd o newidiadau i'r categorïau 'angen blaenoriaethol' ar gyfer pobl ddigartref. Gallai hyn arwain at fwy o alw ar adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig, yn enwedig llety dros dro.

Mae digartrefedd a'i effeithiau'n bellgyrhaeddol. Nid oes gan yr un sefydliad unigol y gallu i oresgyn yr heriau a chan hynny mae'n bwysig bod swyddogaethau statudol ac anstatudol yn cydweithio i drechu'r mater trawsbynciol hwn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn benderfynol o oresgyn yr heriau hyn a'n gweledigaeth yw:

***“Cydweithio ar sail gorfforaethol gyda phartneriaid allanol, a defnyddwyr gwasanaethau, mewn modd ymatebol, creadigol ac amserol i atal a lleddfu digartrefedd ledled y fwrdeistref sirol, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at lety addas, gyda'r cymorth y mae'i angen i ddiwallu eu hanghenion”***

Mae'r canlynol wedi cael eu hadnabod fel amcanion sy'n cydnabod nad dim ond mater sy'n ymwneud â thai yw digartrefedd:

- Gwella cydweithio rhwng sefydliadau allanol
- Gwella cydweithio rhwng y swyddogaethau statudol yn yr Awdurdod Lleol.
- Gwella trefniadau gweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i hwyluso cydweithrediad yn unol ag Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014.
- Gwella'r modd y mae pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael mynediad at wasanaethau.
- Gwella hygyrchedd ac argaeledd opsiynau cymorth a llety i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Cefnogi Pobl sy'n Cysgu Allan a mynd i'r afael â'r angen i gysgu allan

## 2.0 Ble mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr arni yn awr?

### 2.1 Deall Digartrefedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr

#### Yn 2017-18:

- Fe gyflwynodd 1020 o aelwydydd eu hunain i'r Awdurdod Lleol am eu bod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu 28% erbyn diwedd 2018/19.
- Pobl sengl oedd 68% o aelwydydd. Mae hyn yn gynydd bach o'i gymharu â 2016/17 pan oedd yn 66% ond yn debyg i 2015/16 pan oedd yn 69%.
- Pobl 55 oed neu drosodd oedd 10% o'r aelwydydd. Mae hyn yn gynydd o'i gymharu â 2016/17 pan oedd yn 6% ac o'i gymharu â 2015/16 pan oedd yn 7%. Rhagwelir y bydd y ganran yn aros yn gyson erbyn diwedd 2018/19 ar 10%
- Ers rhoi Deddf Tai (Cymru) ar waith, mae nifer y bobl 55 oed neu drosodd sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref wedi cynyddu'n sylweddol o 65 yn 2015/16 i ffigwr rhagamcanol o 134 erbyn diwedd 2018-19.
- Roedd 59% o'r rhai a'u cyflwynodd eu hunain yn ddigartref yn bobl 34 oed ac iau. Mae hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â 2016/17 pan oedd yn 60% a 2015/16 pan oedd yn 61%.
- Roedd 6% o'r rhai a'u cyflwynodd eu hunain yn ddigartref yn 16 neu 17 oed. Mae hyn yn gyson â 2016/17 pan oedd yn 5% a 2015/16 pan oedd yn 7%. Rhagwelir y bydd y ganran yn aros yn gyson erbyn diwedd 2018/19 ar 6%.
- Ers rhoi'r Ddeddf Tai (Cymru) ar waith, mae nifer y bobl 16 neu 17 oed sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref wedi cynyddu o 57 yn 2015/16 i ffigwr rhagamcanol o 80 erbyn diwedd 2018-19.
- Y rheswm pennaf dros ddigartrefedd oedd "colli llety rhent neu glwm" (19%) gyda "rhiant ddim yn gallu neu'n barod i gartrefu mwyach" yn ail (13%) a "perthnasau eraill neu gyfeillion ddim yn gallu neu'n barod i gartrefu mwyach" yn drydydd (13%).
- Llwyddodd yr Awdurdod Lleol i atal 69% o aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd rhag dod yn ddigartref mewn gwirionedd yn ystod y cyfnod hwn.
- Tai rhent preifat (38%) a thai rhent cymdeithasol (39%) oedd y dulliau o atal digartrefedd a ddefnyddiwyd fwyaf.
- Tai rheng preifat (38%) a thai rhent cymdeithasol (27%) oedd y dulliau a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer lleddfu digartrefedd i aelwydydd a oedd yn ddigartref mewn gwirionedd hefyd. Fodd bynnag, mae llety â chymorth yn cael ei ddefnyddio'n fwyfwy hefyd (24%).

- Tai rhent preifat (20%) a thai rhent cymdeithasol (36%) oedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin eto ar gyfer sicrhau llety i'r rhai yr oedd dyletswydd 'derfynol' ar y Cyngor i'w cartrefu, lle nad oedd wedi bod yn bosibl atal neu leddfu'r digartrefedd.
- Cafodd 41% o'r bobl yr oedd dyletswydd 'derfynol' ar y Cyngor i'w cartrefu ganlyniad negyddol, megis dod yn fwriadol ddigartref o lety interim addas (er enghraifft cael eu troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent neu dorri rheolau'r llety) neu wrthod cynnig addas o lety.
- Cafodd 307 o aelwydydd eu helpu trwy gael eu lleoli mewn llety dros dro. Roedd hwn yn gynydd o 6% o'i gymharu â 2016/17 ac yn gynydd o 8% o'i gymharu â 2015/16. Llety hostel a berchnogir gan yr Awdurdod Lleol oedd y math o lety dros dro a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin, gyda 67% o'r aelwydydd yn cael eu lleoli yn y rhain.
- Fe arweiniodd 49% o'r enwebiadau o'r Gofrestr Tai Gyffredin at ddyrannu llety'n llwyddiannus. Cafodd 28% o'r enwebiadau eu gwrthod gan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a chafodd 23% eu gwrthod gan yr ymgeisydd.

### **O ran y sefyllfa ym mis Tachwedd 2018:**

- Mae 76 o aelwydydd wedi'i cartrefu mewn llety dros dro.
- Mae 1018 o aelwydydd wedi'u cofrestru ar Gofrestr Tai Gyffredin Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae 89 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd ac yn cael eu helpu i atal eu digartrefedd.
- Mae 115 o aelwydydd yn ddigartref ac yn cael eu helpu i leddfu eu digartrefedd.
- Mae 79 o aelwydydd yn ddigartref ac yn rhai y mae ar yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ddod o hyd i lety ar eu cyfer.
- Yn ystod y cyfrif o bobl sy'n cysgu allan a gynhaliwyd rhwng 10pm ar 8 Tachwedd a 5am ar 9 Tachwedd 2018 roedd 10 o leoedd gwely gwag ar gael. Cafodd 5 o bobl fynediad at y ddarpariaeth argyfwng, tra bo 5 o bobl heb gael mynediad ati, gan ddewis cysgu allan yn lle hynny. Mae hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

## 2.2 Negeseuon allweddol o'n Hadolygiad o Ddigartrefedd

Cynhaliwyd adolygiad statudol cynhwysfawr ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2018, yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 lle mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal Adolygiad o Ddigartrefedd a pharatoi Strategaeth Digartrefedd. Y negeseuon allweddol o'r adolygiad yw:

- **Mae nifer y rhai sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref yn cynyddu.** Bu cynnydd o 18% yn nifer y rhai sy'n eu cyflwyno'u hunain rhwng 2015/16 a 2017/18. Rhagwelir y bydd cynnydd pellach o 28% yn nifer y rhai sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref erbyn diwedd 2018/19. Bu cynnydd nodedig yn nifer y cyflwyniadau o blith pobl 55 oed neu drosodd a phobl 16-17 oed.
- **Mae angen i'r dull corfforaethol, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Tai gael ei gryfhau.** Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd i atal neu leddfu digartrefedd yn cael eu colli.
- **Mae ymchwil a gyflawnwyd gan nifer o sefydliadau dibynadwy'n cadarnhau bod cost peidio â mynd i'r afael â digartrefedd yn cael effaith ariannol negyddol ar draws y sector cyhoeddus ehangach.** Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd, y system cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau addysg.
- **Mae digartrefedd yn effeithio'n sylweddol ar iechyd a lles** a dangosir hynny gan anghenion lluosog a chymhleth llawer o bobl sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref. Yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion tai, gall gwasanaethau digartrefedd atal lles corfforol a meddyliol rhag dirywio.
- **Dylai atal a lleddfu digartrefedd gael ei grybwyll yn benodol yn yr holl gynlluniau corfforaethol statudol, gan gynnwys rhai'r Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf.** Mae angen i hyn fod yn fwy nag ymrwymiad. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys manylion llwybrau atal a lleddfu ar gyfer grwpiau allweddol sy'n wynebu risg e.e. pobl ifanc mewn gofal, pobl â heriau o ran iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau.
- **Rhaid gwella mynediad 'drws blaen' at gyngor ynghylch tai.** Dylai ailddylunio a dulliau brysbennu amgen leihau'r nifer o weithiau y mae'n rhaid i bobl rannu eu storïau personol, cyn eu bod yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth y mae ei angen arnynt. Gallai hefyd gynyddu capasiti staff, gan ei gwneud yn bosibl darparu ymyriadau mwy amserol a lleihau sefyllfaoedd diangen a drutach pan fo materion yn dwysáu.
- **Gallai defnydd gwell o dechnoleg a digideiddio wella'r modd y darperir gwasanaethau.** Gallai defnyddwyr gwasanaethau gael mynediad at wasanaethau a rhagor o wybodaeth mewn modd mwy amserol ac effeithlon, trwy wefan o ansawdd da a thros y ffôn.
- **Rhaid i fynediad at wasanaethau cymorth gael ei wella a bod yn amrywiol.** Mae pobl mewn gwasanaethau cymorth yn cael profiadau cadarnhaol, ond nid yw pobl yn ymwybodol o anghenraid o'r cymorth sydd ar gael ac nid yw gwasanaethau wastad yn hygyrch. Dylai amrywiaeth o ddarparwyr a gwasanaethau cymorth cynhwysol fod ar

gael, a'r rheiny'n hygyrch ac yn cydblethu â'i gilydd, yn enwedig i bobl â materion iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau.

- **Dylid archwilio amrywiaeth ehangach o opsiynau llety.** Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl ag anghenion cymorth uchel a chymhleth a'r rhai nad ydynt yn addas ar gyfer llety / dulliau cymorth traddodiadol neu nad ydynt yn ymgysylltu â hwy.
- **Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn awyddus i adeiladu ar berthnasoedd presennol â'r Awdurdod Lleol.** Fe gyflwynodd Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014 ddyletswydd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gydweithredu, gyda'r nod o atal a lleddfu digartrefedd. Ceir rhai anghyfartaleddau rhwng arferion y mae angen ymchwilio'n fwy iddynt. Bydd gwybodaeth well a mwy amserol o gymorth gyda dyraniadau ac mae angen llwybr ailsefydlu ar gyfer pobl â hanes o losgi bwriadol neu droseddau rhyw.
- **Mae rhanddeiliaid allweddol yn croesawu cyfleoedd ar gyfer cynllunio strategol ar y cyd â'r Awdurdod Lleol.** Bydd perthnasoedd mwy rhagweithiol yn gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu cydlynu a'u cynllunio ar draws y sector ehangach. Bydd rhagor o gyfleoedd i bartneriaid gwrdd yn ei gwneud yn bosibl bod â fforwm ar gyfer amlygu heriau a chyfleoedd.
- **Cydgynhyrchu llwybrau gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau.** Gall cynllunio llwybrau mewn modd hollgynhwysol, cydlynol gyflawni canlyniadau gofynnol, gan sicrhau bod eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.



## [3.0 Beth mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei wneud yn dda?](#)

Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran addasu i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'i rhoi ar waith.

### **3.1 Y Tîm Datrysiadau Tai**

**Ers rhoi Deddf Tai (Cymru) 2014 ar waith ym mis Ebrill 2015 mae'r Tîm wedi:**

- Llwyddo i atal 67% o aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd rhag dod yn ddigartref (819 o aelwydydd)
- Llwyddo i leddfu digartrefedd ar gyfer 43% o aelwydydd a oedd yn ddigartref mewn gwirionedd (856 o aelwydydd)
- Cynorthwyo 427 o aelwydydd i aros yn eu llety cyfredol neu ddod o hyd i lety amgen, gan ddefnyddio Cynllun Gwario i Arbed
- Ymateb i ddigartrefedd trwy drefnu 1380 o leoliadau mewn llety dros dro
- Llwyddo i gartrefu 523 o aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n ddigartref mewn gwirionedd trwy'r Gofrestr Tai Gyffredin

Mar Tîm Datrysiadau Tai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor rheng-flaen. Mae'r Ganolfan Gyswllt yn ymdrin ag ymholiadau cychwynnol ynghylch tai ac yn gwneud apwyntiad gyda'r Tîm Datrysiadau Tai pan fo angen cyngor mwy arbenigol. Mae'r broses hon yn helpu i flaenoriaethu achosion fel bod gan y Tîm Datrysiadau Tai fwy o gapasiti i ymdrin ag achosion mwy taer, megis pobl sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref.

Mae'r Tîm Datrysiadau Tai'n cynnal asesiad tai a chymorth cynhwysfawr o ymgeiswyr ac maent yn gyfrifol am brosesu a rheoli'r holl geisiadau digartrefedd, gan gynnwys cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod dan y Ddeddf. Lle mae rhywun 16 neu 17 oed yn cyflwyno'i hun yn ddigartref cynhelir asesiad ar y cyd ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Lle mae angen llety dros dro, mae'r Tîm Datrysiadau Tai'n amcanu at gartrefu aelwydydd mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau. Mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu amrywiaeth o opsiynau llety dros dro gan gynnwys:

- Hostel teuluoedd a phobl ifanc
- Hostel person sengl
- Llety hunangynhwysol a llety a rennir i bobl sengl
- Llety rhent preifat a brydlesir ar gyfer teuluoedd a phobl sengl
- Lloches i fenywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig
- Llety gwely a brecwast
- Darpariaeth gwelyau argyfwng ar gael am gyfnodau byrdymor yn unig
- Arwynebedd llawr mynediad uniongyrchol i bobl sy'n cysgu allan

Mae'r Tîm Datrysiadau Tai hefyd yn rheoli ceisiadau i'r Gofrestr Tai Gyffredin ac enwebiadau ohoni.

Yn barod ar gyfer y Ddeddf cafodd system rheoli achosion bresennol y Tîm Datrysiadau Tai ei hailddylunio i'w gwneud yn bosibl rheoli achosion digartrefedd yn gywir ac yn effeithlon. Un dull y mae'r Tîm Datrysiadau Tai wedi'i ddatblygu a'i ddefnyddio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yw'r 'Cynllun Gwario i Arbed'. Mae'r cynllun yn cynnig taliadau yn ôl disgrisiwn, sy'n arbed mwy o wariant i'r Awdurdod a gwasanaethau eraill trwy atal sefyllfa rhag dwysáu.

Enghraifft o hyn yw helpu ymgeisydd â bond arian parod neu rent ymlaen llaw o £500 i sicrhau eiddo rhent preifat, gan atal yr angen am lety dros dro costus, a allai gostio dros £4000.

### 3.2 Gwasanaethau wedi'u Gwreiddio

Mae nifer o wasanaethau anstatudol wedi'u gwreiddio o fewn y Tîm Datrysiadau Tai. Mae gwreiddio gwasanaethau wedi creu perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng sefydliadau ac mae'n ei gwneud yn bosibl darparu gwasanaeth cyfannol, di-dor ar gyfer ymgeiswyr.

Mae'r gwasanaethau isod wedi'u gwreiddio o fewn y Tîm Datrysiadau Tai ar hyn o bryd a bwriedir rhoi ystyriaeth i wreiddio gwasanaethau ymhellach yn y dyfodol.

- Gwasanaeth cyfryngu ar gyfer teuluoedd sy'n arbenigo mewn rhoi cymorth cyfryngu i deuluoedd, lle mae person ifanc 16-25 oed yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddod yn ddigartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio gyda'r unigolyn ifanc a'i deulu i wella perthnasoedd ac atal sefyllfa lle gofynnir i'r unigolyn ifanc adael neu hwyluso dychweliad adref.
- Gwasanaeth atal digartrefedd a chyngor ariannol, sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys; sicrwydd deiliadaeth / achosion adennill meddiant, digartrefedd, tai sydd wedi mynd â'u pen iddynt, mater sy'n ymwneud â dyled / arian, cynyddu incwm i'r eithaf.
- Mae'r Cynllun Bwrdd Bondiau'n cynorthwyo pobl ar incwm isel i ddod o hyd i lety rhent preifat a'i sicrhau. Mae'r gwasanaeth yn rhoi tystysgrifau bondiau sy'n cwrdd â chost blaendal ar eiddo rhent preifat.
- Mae gwasanaethau cam-drin domestig integredig, sydd wedi'u lleoli yn 'siop un stop' cam-drin domestig y Cyngor (Ystafell Assia) yn rhoi cymorth arbenigol, cyfrinachol i ddiodefwrwr cam-drin domestig gan gynnwys cynorthwyo diodefwrwr i ffoi rhag cyflawnwyr, trwy gael mynediad at lety lloches.

### 3.3 Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl

Rhaglen ymyrryd yn gynnwys sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref neu'n helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw yw Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn y fwrdeistref i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain neu mewn tŷ â chymorth. Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mae Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu'r canlynol ar hyn o bryd:

- Gwasanaethau larymau, gan gynnwys ar gyfer llety gwarchodol a gwasanaethau teleofal.

- Llety Dros Dro / â Chymorth ar gyfer:
  - ❖ Oedolion digartref
  - ❖ Teuluoedd digartref
  - ❖ Darpariaeth mynediad uniongyrchol i'r rhai nad oes dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i'w cartrefu.
  - ❖ Pobl ifanc 16-21 oed
  - ❖ Y rhai â materion iechyd meddwl
  - ❖ Defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed ac sydd â bywydau anhrefnus
  - ❖ Y rhai â hanes o gamddefnyddio sylweddau
  - ❖ Y rhai ag anableddau dysgu
  
- Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer:
  - ❖ Anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai generig
  - ❖ Landlordiaid a thenantiaid preifat
  - ❖ Y rhai â hanes o droseddu
  - ❖ Pobl hŷn
  - ❖ Ffoaduriaid

Cymorth Tai mewn cynlluniau 'gofal ychwanegol' ar gyfer pobl hŷn.

- Gwasanaethau cam-drin domestig, gan gynnwys:
  - ❖ Lloches
  - ❖ Cymorth galw heibio ac fel y bo'r angen
  - ❖ Rhaglen i gyflawnwyr
  - ❖ Cymorth i bobl ifanc

Ym mis Mehefin 2018, roedd manylion y gwasanaethau a oedd yn cael eu hariannu â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn y fwrdeistref sirol fel a ganlyn:

<b>Llety â Chymorth Sefydlog</b>	<b>Nifer yr Unedau</b>
Gwasanaethau Larymau (Llety Gwarchodol a Theleofal)	2886
Arall	10
Teuluoedd ag Anghenion Cymorth	16
Pobl dros 55 oed (Gofal Ychwanegol)	39
Pobl ag Anableddau Dysgu	111
Pobl â Materion Iechyd Meddwl	21
Pobl â Materion Camddefnyddio Sylweddau	5
Pobl Sengl ag Anghenion Cymorth	22
Menywod sy'n profi Cam-drin Domestig	13
Pobl ifanc sy'n gadael gofal	12
Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16 i 24)	30
<b>Cyfanswm y Cwbl</b>	<b>3165</b>

<b>Cymorth Fel y Bo'r Angen</b>	<b>Nifer yr Unedau (isafswm)</b>
Teuluoedd ag Anghenion Cymorth	20
Cymorth Generig / Fel y Bo'r Angen	488
Pobl dros 55 oed	90
Pobl â Hanes o Droseddu	15
Pobl â Materion Iechyd Meddwl	204
Pobl ag Anableddau Corfforol a / neu Synhwyraidd	10
Pobl â Statws Ffoadur	6
Pobl Sengl ag Anghenion Cymorth	3
Menywod sy'n profi Cam-drin Domestig	92
Pobl ifanc sy'n gadael gofal	85
Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16 i 24)	35
<b>Cyfanswm y Cwbl</b>	<b>1048</b>

### 3.4 Y Sector Rhentu Preifat

Rhaid cydweithio'n agos gyda'r sector rhentu preifat i atal a lleddfu digartrefedd yn llwyddiannus. Mae gan yr Awdurdod Lleol nifer o fentrau i gyflawni hyn:

- Mae Fforwm Landlordiaid Pen-y-bont ar Ogwr yn cwrdd yn rheolaidd ac fe'i mynychir gan nifer dda o landlordiaid o'r sector preifat sy'n gosod eiddo ledled y fwrdeistref sirol. Mae'r Fforwm yn gyfle i'r Awdurdod Lleol a landlordiaid gyfathrebu a rhannu gwybodaeth ac arfer da.
- Mae'r gwasanaeth 'Cam Cynnar', a ariennir gan Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, yn galluogi landlordiaid i ofyn am help ar ran y tenant, ar adeg cyn bod y sefyllfa'n dod yn fwy argyfyngus. Bydd gweithiwr cymorth 'Cam Cynnar' yn gweithio'n ddiudedd gyda'r landlord a'r tenant i geisio datrys unrhyw faterion a llunio datrysiad dymunol, gobeithio, i osgoi troi allan.
- Mae 'Bwrdd Bondiau Pen-y-bont ar Ogwr' yn dyroddi tystysgrifau bondiau i gwrdd â chost blaendal ar eiddo ar rent. Mae hyn yn darparu gwarant i landlordiaid y byddant yn cael taliad hyd at werth y Bond os bydd y denantiaeth yn dod i ben cyn pryd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynorthwyo tenantiaid gyda'r broses symud ac adsefydlu, gan hybu perthnasoedd cadarnhaol â landlordiaid lleol.
- Gan weithio i gyrraedd nodau'r Strategaeth Eiddo Gwag, mae'r Cydlynnydd Eiddo Gwag yn gweithio gyda landlordiaid yn y sector preifat i ddwyn gostyngiad mewn eiddo gwag ledled y fwrdeistref sirol a helpu i gyfrannu tuag at gynyddu argaeledd tai i'w gwerthu neu i'w rhentu. Mae Grant Cartrefi Gwag ar gael i landlordiaid i helpu gyda chost unrhyw waith. Rhaid i eiddo sy'n cael y grant gael ei osod i'w rentu yn ôl cyfradd y Lwfans Tai Lleol am o leiaf 3 blynedd. Mae eiddo'n cael ei osod i bobl a enwebir gan y Tîm Datrysiadau Tai, ac mae'r rheiny'n cynnwys aelwydydd digartref.

### 3.5 Tai Fforddiadwy

I lunio'r ddarpariaeth o ran llety ar ffurf tai newydd a chynyddu i'r eithaf swm y Grant Tai Cymdeithasol a grantiau atodol mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Llywodraeth Cymru, cyflawnwyd 351 o unedau o dai fforddiadwy yn y fwrdeistref sirol rhwng 2015-16 a 2017-18. Mae hyn yn cynnwys tai rhent cymdeithasol a thai canolradd (tai am gost uwch na rhenti cymdeithasol, ond is na rhenti preifat neu werth y farchnad). Gall tai canolradd gynnwys cartrefi cost isel i'w gwerthu neu i'w gosod â rhent canolradd.

### 3.6 Datblygiadau Cyfredol

Yn y Strategaeth hon mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn archwilio ble y mae ar yr Awdurdod Lleol eisiau bod erbyn 2022 a sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni

hyn. Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud i gyrraedd y nodau hyn ac mae'r canlynol yn enghreifftiau o rywfaint o hyn:

- Mae'r Tîm Datrysiadau Tai wedi penodi Swyddog Datblygu Porth, a fydd â'r cyfrifoldeb am ddatblygu a rheoli Porth ar gyfer gwasanaethau cymorth, gan gynnwys llety â chymorth. Mae Porth yn gwella hygyrchedd gwasanaethau cymorth ac yn ei gwneud yn bosibl monitro'r ddarpariaeth yn well, gan sicrhau bod gan y rhai sydd fwyaf mewn angen fynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt a bod y rhai sy'n barod i symud ymlaen yn cael eu cynorthwyo i wneud hynny mewn modd amserol.
- Yn barod ar gyfer y gaeaf mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu dull cydgysylltiedig gyda phartneriaid yn y trydydd sector, gan ehangu a chynyddu gwasanaethau gan sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer pobl ddigartref trwy fisoedd y gaeaf. Bydd gwasanaeth yn ystod y prynhawn yn cael ei ddatblygu yn ac o amgylch Canol Tref Pen-y-bont, a fydd yn galluogi pobl ddigartref i gael mynediad at amgylchedd diogel, sych, cynnes a chyfeillgar i ddianc rhag tywydd gwael.
- Mae'r Tîm Datrysiadau Tai wedi mynd trwy ymarfer comisiynu i gaffael gwasanaeth Tai yn Gyntaf. Bydd y gwasanaeth yn amcanu'n benodol at gefnogi a chartrefu pobl sy'n cysgu allan sydd ag anghenion cymhleth, ac sy'n hirsefydlog gan ddefnyddio dull cymorth annhraddodiadol. Dechreuodd y gwasanaeth ar 1 Ionawr 2019.
- Mae'r Tîm Cefnogi Pobl yn cydweithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau mewnol i ddatblygu gwasanaethau allgymorth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau peilot. Mae gweithwyr allgymorth iechyd meddwl wedi cael eu recriwtio ac mae gwasanaethau wedi bod yn weithredol ers mis Chwefror 2019.
- I adeiladu ymhellach ar addasiadau a wnaed i'n system TG / rheoli achosion Datrysiadau Tai, mae system newydd yn cael ei rhoi ar waith sy'n darparu porth ar gyfer cwsmeriaid, gan alluogi pobl i wneud a rheoli eu ceisiadau ar-lein. Bydd hyn yn gwella ein dull brysbennu, gan helpu i leihau'r angen i bobl ailadrodd eu stori a bydd yn cyfrannu at gynyddu capasiti o fewn y Tîm Datrysiadau Tai.
- I ddatblygu llwybr clir ar gyfer pobl ifanc a staff, mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu protocol ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, o ran llwybr llety ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref.

## 4.0 Ble mae ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eisiau bod?

Ein huchelgais yw gwella ein gwasanaethau tai a digartrefedd yn barhaus, i wireddu ein huchelgais ar gyfer digartrefedd yn y fwrdeistref sirol. Felly mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu pedwar nod allweddol i'n helpu i gyflawni hyn.

<b>Nodau</b>	<b>Amcanion i gyrraedd y nodau</b>
Gwella cydweithio rhwng sefydliadau allanol	<p>Creu fforwm / fforymau lle gall partneriaid allweddol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid preifat a'r trydydd sector, amlygu heriau, cyfleoedd a chynllunio'r ddarpariaeth.</p> <p>Cydgynhyrchu llwybrau clir y mae'n hawdd i sefydliadau a defnyddwyr gwasanaethau ddod o hyd i'w ffordd arnynt, lle ceir eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.</p>
Gwella cydweithio rhwng y swyddogaethau statudol yn yr Awdurdod Lleol	<p>Galluogi swyddogaethau statudol yr Awdurdod Lleol e.e. Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg i gwrdd yn fwy rheolaidd gan amcanu at sicrhau dull ar draws y Cyngor cyfan o atal a lleddfu digartrefedd.</p> <p>Sicrhau bod ymrwymiad i drechu digartrefedd wedi'i gorffori'n benodol ym mhob cynllun statudol, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>
Gwella trefniadau gweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i hwyluso cydweithrediad yn unol ag Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014.	<p>Galluogi'r Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gwrdd yn fwy rheolaidd i'w gwneud yn bosibl cael cysondeb a gwella prosesau presennol e.e. darparu gwybodaeth amserol, rhannu asesiadau risg a chynnig cyfleoedd ar gyfer cydweithio.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth i geisio dewisiadau yn lle troi allan mewn ymateb i ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p> <p>Cynyddu i'r eithaf y llety a'r cymorth sydd ar gael i leddfu digartrefedd e.e. argaeledd mwy o lety a rennir a mwy o dai â chymorth i bobl ag anghenion cymhleth.</p> <p>Llunio cytundebau ffurfiol a/neu ddangosyddion perfformiad allweddol y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arnynt.</p>
Gwella'r modd y mae pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael mynediad at wasanaethau.	<p>Hybu gwasanaethau 'brysbennu' presennol gan ddefnyddio dulliau ar-lein a thros y ffôn i'w gwneud yn bosibl rhoi gwell gwybodaeth a chyngor yn y pwynt cyswllt cyntaf.</p> <p>Hwyluso amgylchedd i drafodaethau sensitif neu gyfrinachol ddigwydd a gostwng y nifer o weithiau y mae'n rhaid i bobl rannu eu storïau personol a thrawmatig, cyn y gallant gael mynediad at y gwasanaeth y mae'i angen arnynt.</p>

	<p>Cynyddu capasiti staff, gan ei gwneud yn bosibl darparu myriadau mwy amserol a lleihau sefyllfaoedd diangen a mwy costus lle mae materion yn dwysáu.</p> <p>Ystyried cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau statudol ac anstatudol neu eu rheoli ar y cyd, sy'n adlewyrchu'r heriau eang, cymhleth a chyd-bresennol y mae rhai pobl digartref yn eu hwynebu.</p>
<p>Gwella hygyrchedd ac argaeledd opsiynau cymorth a llety i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau.</p>	<p>Adolygu amrywiaeth y ddarpariaeth cymorth sy'n gysylltiedig â thai, i sicrhau cynwysoldeb i bawb gan gynnwys cyn-aelodau'r lluoedd arfog, yn enwedig i'r bobl hynny sydd wedi'u cau allan o wasanaethau neu sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref drachefn.</p> <p>Sicrhau bod opsiynau llety addas ar gael i bobl â hanes o heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd a hanes o droseddau difrifol, gan gynnwys hanes o losgi bwriadol a throseddau rhyw.</p> <p>Ystyried goblygiadau lefelau cynyddol a demograffeg newidiol y rhai sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref a sicrhau bod opsiynau cymorth a llety'n addas i ddiwallu anghenion.</p> <p>Cynyddu i'r eithaf y defnydd o ffrydiau ariannu presennol, megis y Grant Cefnogi Pobl a'r Grant Tai Cymdeithasol, gan ymateb i anghenion newidiol ac archwilio ffrydiau ariannu amgen a chydweithio, megis rhwng asiantaethau statudol i gyflawni opsiynau cymorth a llety wedi'u haddasu at ofynion unigol, i atal digartrefedd</p>
<p>Cefnogi Pobl sy'n Cysgu Allan a mynd i'r afael â'r angen i gysgu allan</p>	<p>Datblygu dull amlasiantaeth o drechu digartrefedd stryd</p> <p>Datblygu gwasanaethau cymorth a llety addas ar gyfer pobl sy'n cysgu allan</p> <p>Cynnig trefniadau i amddiffyn pobl sy'n cysgu allan</p>



## 5.0 Sut fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni ac yn monitro'r Strategaeth?

Bydd Grŵp Cyflawni'r Strategaeth Digartrefedd yn cael ei sefydlu i roi'r Strategaeth hon ar waith. Lle y bo angen, bydd is-grwpiau'n cael eu sefydlu i gyflawni amcanion penodol o fewn y Strategaeth. Bydd y Grŵp Cyflawni'n paratoi adroddiad blynyddol a fydd yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd y nodau a chyflawni'r amcanion.

Bydd Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod Lleol a Chynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau'n nodi'r camau gweithredu a'r dangosyddion perfformiad a fydd yn cyfrannu tuag at gyrraedd y nodau a chyflawni'r amcanion yn y Strategaeth hon. Caiff y Cynllun Corfforaethol ei baratoi ar sail cylch 3 blynedd a chaiff Cynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau eu diweddarau'n flynyddol. Bydd y camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau'n cael eu monitro'n chwarterol, a bydd adroddiad ar y rhai sydd o bwys corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet trwy'r Aseiad o Berfformiad Corfforaethol chwarterol.

Er bod yr Awdurdod Lleol wedi arwain o ran datblygu'r ddogfen hon, cydnabyddir bod y Strategaeth yn cael ei pherchnogi gan yr holl bartneriaid statudol ac anstatudol sy'n cydweithio i atal a lleddfu digartrefedd yn y fwrdeistref sirol.

# ATODIAD 1 – CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

## Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn diwygio ac yn cyfuno'r holl ddeddfwriaeth flaenorol ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar atal digartrefedd ac yn gosod dyletswyddau statudol newydd ar awdurdodau lleol. Mae nodweddion allweddol ar y ddeddfwriaeth yn cynnwys:

- Dyletswydd newydd i helpu unrhyw un sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod;
- Dyletswydd i roi help i unrhyw unigolyn digartref i'w helpu i sicrhau cartref addas;
- Pŵer yn hytrach na dyletswydd i gymhwyso'r prawf bwriadoldeb;
- Pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd trwy ddod o hyd i lety yn y sector rhentu preifat;
- Dyletswyddau cryfach ar Gymdeithasau Tai i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.

Diben y ddeddfwriaeth yw cyflawni'r canlynol:

- Llai o aelwydydd yn profi trawma digartrefedd;
- Gwaith atal gwell, wedi'i dargedu'n fwy;
- Mwy o help, cyngor a gwybodaeth i aelwydydd sy'n cael cynhorthwy cyfyngedig dan y ddeddfwriaeth gyfredol;
- Mwy o ffocws ar y defnyddiwr gwasanaethau, gan ei helpu i fynd i'r afael ag achosion digartrefedd a gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â dod o hyd i ddatrysiadau i'w broblem tai;
- Defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat fel datrysiad i ddigartrefedd;
- Pwyslais cryfach ar gydweithrediad a gweithio amlasiantaeth;
- Plant mewn aelwydydd sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael eu hamddiffyn yn fwy yn ogystal â help ychwanegol i blant sy'n gadael gofal.

Mae Adran 50 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gynnal Adolygiad o Ddigartrefedd ar gyfer ei ardal ac yna llunio a mabwysiadu Strategaeth Digartrefedd, yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw. Rhaid i unrhyw adolygiad a strategaeth roi ystyriaeth i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Atal digartrefedd;
- Bod ac y bydd llety addas ar gael i bobl sydd neu a allai ddod yn ddigartref;
- Bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sydd neu a allai ddod yn ddigartref.

## Cefndir deddfwriaethol a rheoleiddiol ychwanegol

Wrth ddrafftio'r Strategaeth hon mae'r elfennau deddfwriaethol a rheoleiddiol canlynol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth hefyd:

- Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd i Gymru 2009-2019
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014
- Llwybr cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel yng Nghymru
- Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Adsefydlu Troseddwyd 2014
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Cod Cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, 2016
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Un Cyngor yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywydau 2016-20
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru "Sut y mae Llywodraeth Leol yn rheoli'r galw – Digartrefedd" Ionawr 2018
- Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Gysgu Allan 2018-20
- Diwygiadau Budd-dal Lles